

Rhaglen Mentora WEN Cymru

Nod rhaglen mentora WEN Cymru yw cael mwy o fenywod, a mwy o fenywod amrywiol, i fywyd cyhoeddus a gwleidyddol, a rhoi'r offer i grŵp o fentoreion wneud hyn. Rydym am i fwy o fenywod i gynnig eu hunain ar gyfer etholiadau gwleidyddol ac i sefyll am swyddi cyhoeddus – megis gwneud cais i fod yn ymddiriedolwr neu'n llywodraethwr ysgol leol neu Fwrdd y GIG.

Rydym yn recriwtio pump ar hugain o ferched amrywiol o ledled Cymru i fod yn fentoreion ar y cynllun sy'n rhedeg am naw mis gan ddechrau ym mis Ebrill 2019 ac yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2019.

Sut mae'r cynllun yn gweithio

Mae tair elfen i'r rhaglen, sy'n cynnwys mentora gan un o'r nifer o ferched hynod ddylanwadol, gweithdai unigryw sy'n gysylltiedig â bywyd cyhoeddus a gwleidyddol, a chefnogaeth gan grŵp o gyfoedion.

Mentora: Mae mentoreion yn cael eu paru gydag un o'n mentoriaid yn seiliedig ar eu maes o ddiddordeb, profiad a lleoliad daearyddol. Bydd sesiynau mentoreion a mentoriaid yn cael eu trefnu'n uniongyrchol rhwng y ddau barti ar ddyddiad cyfleus pan fo nhw am eu trefnu a gall fod yn hyblyg iawn, fodd bynnag rydym yn awgrymu ymgysylltu bob 4-6 wythnos.

Gweithdai: Bydd tua chwe sesiwn gweithdy yn cael eu cynnal gyda mentoreion gan gynnwys:

- Gwneud Penderfyniadau a Dylanwadu yng Nghymru: Sut mae'r Cynulliad yn gweithio, sut mae pleidiau gwleidyddol yn gweithio, sut i ddylanwadu
- Ymgyrchu: Sut i ymgyrchu i greu newid ac i sefyll am etholiad
- Bywyd Cyhoeddus: Sut i ymwneud â bywyd cyhoeddus e.e. gwneud cais i fyrddau cyhoeddus, byrddau cwmnïau, dod yn ymddiriedolwr i elusen neu'n llywodraethwr ysgol
- Rhwydweithio Cyflym: cyfle i gyfarfod a holi amrywiaeth eang o fenywod dylanwadol amrywiol a datblygu eich rhwydweithiau
- Siarad cyhoeddus: sut i ddefnyddio eich llais, iaith eich corff, ac ymgysylltu gyda'r cyfryngau
- Ymweld â Thai'r Senedd: i ddeall rolau'r senedd a chlywed gan aelodau'r Tŷ Cyffredin a Thy'r Arglwyddi.

Cyflwynir y sesiynau hyn gan amrywiaeth eang o siaradwyr sy'n arbenigwyr ac yn hynod brofiadol yn eu meysydd. Maen nhw wedi'u dylunio i gefnogi mentoreion i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth yn unol â rhai o'r sgiliau cyffredin a nodwyd yn [Fframwaith Sgiliau](#) y rhaglen.

Cefnogaeth gan Grŵp o Gyfoedion: Drwy ddwyn menywod at ei gilydd o ledled Cymru gydag amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiad, mae'r rhaglen yn creu rhwydwaith newydd ac amrywiol. Anogir ymgeiswyr i gefnogi a galluogi ei gilydd i gyflawni eu nodau ac i ddatblygu ac adeiladu eu rhwydweithiau eu hunain ymhellach drwy'r grŵp hwn.

Grŵp Llywio

Cefnogir y prosiect gan Grŵp Llywio sy'n goruchwyllo cynllunio ar gyfer dyfodol y cynllun, ac sy'n ystyried sut y gallwn wella pensaernïaeth, dyluniad a darpariaeth y rhaglen yn ei chyfanrwydd.

Gwerthuso

Bydd y rhaglen yn cael ei gwerthuso yn seiliedig ar adborth gan y mentoreion drwy gydol y cynllun yn seiliedig ar eu nodau a'u dyheadau, yn dilyn digwyddiadau gweithdy ac adborth gan fentoriaid.

Rhaglen Mentora Elusennau WEN Cymru

Mae WEN Cymru wedi cael cyllid gan Rosa a'r Gronfa Woman 2 Woman i gyflwyno rhaglen blwyddyn o hyd gyda'r nod o atgyfnerthu a darparu cefnogaeth sy'n datblygu capasiti i 10 o elusennau menywod yng Nghymru. Ar ddiwedd y prosiect rydym am i sefydliadau a gefnogwyd:

- Fod ag arweinyddiaeth fwy effeithiol, o ganlyniad i strategaeth a llywodraethu mwy clir
- Bod yn fwy cynaliadwy yn ariannol, o ganlyniad i weithdrefnau ariannol cryfach ac arbenigedd codi arian
- Bod yn rhan o fudiad cryfach gyda chynghreiriau cryfach a theimlo'n fwy o ran o fudiad
- Bod â mwy o ddylanwad dros agweddau ac ymddygiadau'r sawl sydd â phŵer a/neu gymunedau lleol.

Bydd y rhaglen yn cynnwys 3 sesiwn hyfforddiant wedi'i theilwra, mentora a sefydlu rhwydwaith dysgu cymheiriaid

- **Sesiynau dysgu wedi'u theilwra:** I ddatblygu capasiti fel bod gan y sefydliadau ffocws strategol cryfach, yn dod yn fwy cynaliadwy yn ariannol, yn rhan o fudiad cryfach ac â mwy o ddylanwad dros y sawl sydd â phŵer neu gymunedau lleol.
- **Mentora:** Bydd elusen sy'n cymryd rhan yn cael ei pharu gydag elusen mentor addas ar gyfer dysgu, cyfarwyddyd, cysgodi bwrdd ac ati. Bydd yr Elusen yn cael ei dewis yn benodol i fodloni anghenion yr elusen fentorai.
- **Dysgu Cymheiriaid:** Bydd yr elusennau sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn ffurfio rhwydwaith, yn dysgu gan ei gilydd - gan arwain at gynllun cymheiriaid lle gellir rhannu profiadau a dysgu.

Bydd angen i sefydliadau menywod wneud cais i gymryd rhan.

O ddechrau'r prosiect bydd WEN Cymru yn ymgynghori gydag amrywiaeth o bartneriaid a rhanddeiliaid i nodi ac archwilio'r meysydd cefnogi a'r canllawiau maen nhw eu hangen, gan ein galluogi i deilwra'r rhaglen ar gyfer elusennau bach yng Nghymru.

Gwerthuso

Mae WEN Cymru yn rhoi pwyslais ar werthuso'r gwaith rydyn ni'n ei wneud ac yna rhannu'r hyn rydyn ni'n ei ddysgu o'i waith gyda'n haelodaeth. Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o offer i ddangos tystiolaeth o'r prosiect hwn, gan gynnwys:

- Datblygu dangosyddion ansoddol a meintiol ar gyfer pob canlyniad a dylunio offer i gasglu data ac i fonitro cynnydd yn erbyn pob dangosydd

- Adborth gan gyfranogwyr ar ddechrau'r broses ac ar y diwedd, fel y gallwn asesu cynnydd yn erbyn yr hyn mae pob elusen unigol eisiau ei gyflawni
- Adborth yn dilyn digwyddiadau gweithdy
- Grŵp ffocws ar ddiwedd y prosiect i drafod profiadau a chanlyniadau gyda mentoreion ac elusennau

Bydd y wybodaeth uchod yn cael ei chasglu mewn prosiect diwedd prosiect a fydd yn cael ei rannu gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid.

ADDRESS

WEN Wales,
c/o Chwarae Teg,
Anchor Court, Keen Road,
Cardiff CF24 5JW

CONTACT

admin@wenwales.org.uk
wenwales.org.uk

INFO

Charity Number: 1145706
Company Number: 07891533

